Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Greenhill
# Lôn Heywood
# Dinbych-y-pysgod
# Sir Benfro
# SA70 8BN

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2014**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg 11 i 18 oed yn nhref Dinbych-y-pysgod yn Sir Benfro yw Ysgol Greenhill School. Mae tua 1,160 o ddisgyblion ar y gofrestr, a thua 230 ohonynt yn y chweched dosbarth. Mae'r ffigurau hyn yn ostyngiad ers yr arolygiad diwethaf pan oedd tua 1,320 o ddisgyblion ar y gofrestr.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu trefi arfordirol Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot yn ogystal â thros 100 milltir sgwâr o'r ardal cefn gwlad gyfagos. Mae gan ychydig dros 11% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.7%. Mae tua 1% o ddisgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae gan ryw 33% o ddisgyblion angen addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19.2%. Mae gan ychydig dros 1% o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.5% ar gyfer Cymru gyfan.

Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ac fe gânt gymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae nifer fach iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith.

Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd er 2009. Ymddeolodd dirprwy bennaeth a fu yn ei swydd ers tro ar ddiwedd 2013 ac mae pennaeth cynorthwyol yn gweithredu fel dirprwy bennaeth ar hyn o bryd. Mae tri aelod arall o'r uwch dîm arweinyddiaeth sydd wedi bod yn eu swydd rhwng tair ac 16 mlynedd.

Yn y sector ôl-16, mae'r ysgol yn gweithio gyda dwy ysgol arall a choleg addysg bellach fel rhan o Ffederasiwn De Sir Benfro. Cyflwynir Bagloriaeth Cymru yn y chweched dosbarth.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Greenhill yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,308 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd yn Sir Benfro yw £5,066 a'r isafswm yw £4,134. Mae Ysgol Greenhill yn bedwerydd allan o'r wyth ysgol uwchradd yn Sir Benfro o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

**Perfformiad presennol**

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 mewn llawer o brif ddangosyddion wedi gwella'n gyflym;
- mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella'n dda;
- mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda ac yn cynhyrchu darnau estynedig gwerth chweil o waith ysgrifenedig;
- mae'r ysgol yn nodi ac yn helpu disgyblion sydd â medrau llythrennedd a rhifedd gwan yn effeithiol; ac
- mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a fynychir gan nifer dda o ddisgyblion, sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion yn effeithiol.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- mewn lleiafrif sylweddol o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd;
- nid yw rhai disgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon a dangosant agweddau difater at eu gwaith mewn gwersi;
- mae cyfraddau absenoliaeth a gwaharddiadau yn rhy uchel;
- mewn tua hanner y gwersi, mae disgwyliadau'n rhy isel ac nid ydynt yn bodloni anghenion disgyblion yn ddigonol; ac
- ni chaiff gweithdrefnau i sicrhau safonau ymddygiad uchel gan bob disgybl eu cymhwyso'n gyson gan bob un o'r staff.

**Rhagolygon gwella**

Bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae arweinwyr wedi bod yn effeithiol yn gwella llawer o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 dros y tair blynedd diwethaf a chodi cyfraddau presenoldeb yn y flwyddyn ddiwethaf;
- mae strategaethau a pholisïau yn canolbwyntio'n addas ar godi safonau a chaiff gweledigaeth yr ysgol ei chyfleu yn effeithiol;
- mae uwch arweinwyr yn defnyddio data yn dda i fonitro perfformiad ac mae staff yn cael eu dwyn i gyfrif yn gynyddol am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion; ac
- mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn briodol i helpu ysgogi gwelliannau.

Fodd bynnag:

- nid yw arweinwyr wedi effeithio'n ddigon cyson ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu sy'n digwydd mewn gwersi;
- nid yw rolau rhai uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi'u diffinio'n ddigon clir i sicrhau yr eir i'r afael yn gadarn â thanberfformio gan staff;
- nid yw uwch arweinwyr yn defnyddio'r canfyddiadau o hunanarfarnu yn ddigon da i sicrhau eu bod yn gwbl effeithiol yn gwella darpariaeth; ac
- nid oes gan uwch arweinwyr brosesau sicrhau ansawdd cadarn ar waith i sicrhau bod gwendidau mewn addysgu a dysgu yn cael eu nodi a'u herio'n effeithiol.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau gwaith disgyblion mewn gwersi

A2 Gwella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau

A3 Gwella ansawdd yr addysgu

A4 Lleihau'r anghysondeb mewn arweinyddiaeth ganol ar draws yr ysgol i sicrhau bod pob un o'r arweinwyr canol yn arwain eu hadrannau yn effeithiol

A5 Gwella prosesau i gryfhau atebolrwydd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol

A6 Gwella ansawdd prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant er mwyn cael effaith ar safonau gwaith disgyblion yn y dosbarth

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella'n gyflym mewn llawer o ddangosyddion. Yn 2013, mae perfformiad yn y prif ddangosydd sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg yn uwch na pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Yn y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi'i chapio wedi gwella'n gyflym hefyd ac yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae perfformiad yn nangosydd lefel 1 sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau wedi bod yn wan. Nid yw'r cynnydd a wna disgyblion o gyfnod allweddol 2 hyd ddiwedd cyfnod allweddol 4 mewn llawer o ddangosyddion mor gryf ac mae islaw perfformiad amcangyfrifedig mewn lleiafrif o ddangosyddion.

Yn gyffredinol, mae perfformiad bechgyn wedi gwella yn y rhan fwyaf o ddangosyddion dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2013, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched ym mhob un o'r pynciau craidd yn fwy na'r gwahaniaethau mewn ysgolion tebyg ac yn genedlaethol. Mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella'n dda yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni yn unol â disgwyliadau.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi bod yn gyson dros y pedair blynedd diwethaf ac mae'n cyd-fynd â'r hyn a geir mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y pynciau craidd ar wahân yn dangos patrwm tebyg, er bod perfformiad mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn gryfach nag ydyw mewn mathemateg.

Yn 2013, ni adawodd yr un disgybl yr ysgol heb gymhwyster yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r gyfran sy'n aros ymlaen mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed uwchlaw ffigurau cenedlaethol. Mae nifer fach o ddisgyblion wedi gadael yr ysgol yn 16 oed ac adroddir nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r gyfran hon islaw ffigurau lleol a chenedlaethol.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, ac, yn 2013, roedd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfartaledd y teulu. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gwneud cynnydd yn unol â disgwyliadau.

Mewn dros hanner y gwersi, mae disgyblion yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ac yn datblygu eu medrau'n dda. Dangosant eu bod yn galw gwaith blaenorol i gof yn gywir ac maent yn defnyddio hyn yn dda i ymestyn eu dysgu i feysydd newydd. Yn y gwersi hyn, maent yn cymryd rhan mewn tasgau a gweithgareddau yn frwdfrydig ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel. Mewn ychydig iawn o wersi, mae disgyblion yn defnyddio ystod eang o fedrau i gefnogi eu dysgu ac yn dangos dealltwriaeth fanwl iawn o'r testunau y maent yn eu hastudio. Mae'r disgyblion hyn yn ymateb yn dda iawn i weithgareddau heriol, maent yn gweithio

gyda'i gilydd yn effeithiol ac yn gwneud cyfraniadau craff mewn trafodaethau dosbarth. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent. Yn y gwersi hyn, nid yw llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn ddigonol yn eu dysgu i wneud cynnydd gwerth chweil. Yn rhy aml, nid ydynt yn cymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau nac yn rhoi sylw digonol i ansawdd eu gwaith. Yn bwysig, mae gormod o fylchau yn eu gwaith a thasgau yn aml yn cael eu gadael heb eu cwblhau neu nid yw'r disgyblion wedi rhoi cynnig arnynt.

Mewn dros hanner y gwersi, mae disgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn effeithiol i'w hathro a'u cyfoedion, gan adeiladu ar sylwadau disgyblion eraill mewn trafodaethau grŵp. Mae mwyafrif y disgyblion yn siarad yn glir a hyderus. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cymryd rhan o'u gwirfodd mewn trafodaethau grŵp neu ddosbarth, ac mewn rhai achosion, maent yn atal gwersi rhag mynd yn eu blaen yn ddidrafferth. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dangos medrau darllen cymwys a gallant ddethol gwybodaeth o ystod o ffynonellau. Mae tua hanner y disgyblion yn arfarnu a dadansoddi gwybodaeth yn dda, ac yn esbonio syniadau'n rhwydd a rhesymu'n glir.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda. Maent yn cynhyrchu darnau estynedig gwerth chweil o waith ysgrifenedig ac yn ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd, fel ysgrifennu llythyrau ffurfiol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu'n ddigon da mewn tua hanner y pynciau. Er enghraifft, yn y gwersi hyn, nid ydynt yn prawfddarllen ac yn gwirio sillafiadau eu gwaith ysgrifenedig yn ddigonol, sy'n arwain at lawer o gamgymeriadau sillafu, atalnodi a theipio diofal. Mewn mwyafrif o bynciau, mae disgyblion yn gwneud nodiadau effeithiol yn eu llyfrau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o bynciau, nid yw disgyblion yn cymryd digon o falchder yn eu gwaith ac maent yn cynhyrchu nodiadau o ansawdd gwael.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth, maent yn defnyddio medrau mesur yn gywir i ddod o hyd i leoedd gan ddefnyddio lledred a hydred. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae cyflwyniad a chywirdeb gwaith graff disgyblion i gynrychioli data mewn meysydd pwnc, fel mathemateg a gwyddoniaeth, yn ddiofal.

Mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn gwneud cynnydd gwerth chweil ac mae llawer ohonynt yn cyflawni gradd C neu'n uwch yn y pwnc mewn TGAU. Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad wedi bod yn gryf dros y blynyddoedd diwethaf ac mae wedi bod yn uwch na pherfformiad mewn ysgolion tebyg.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cymorth da yn yr ysgol, ac mae llawer ohonynt yn ystyried bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae llawer ohonynt yn deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw ac ymarfer corff rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn ystod eithriadol o eang o weithgareddau allgyrsiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau. Mae'r cynghorau blwyddyn a'r cyngor ysgol wedi bod yn effeithiol o ran cyfrannu tuag at ddatblygiadau pwysig yn yr ysgol, fel dylunio gwefan yr ysgol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, bu tuedd gyffredinol o welliant mewn cyfraddau presenoldeb, er bod y rhain yn parhau i fod islaw'r rhai mewn ysgolion tebyg. Mae data'r ysgol heb ei wirio ar gyfer tymor yr hydref 2013 a thymor y gwanwyn 2014 yn dangos gwelliant sylweddol o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae mwyafrif ohonynt yn barod i ddysgu ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn cymryd rhan yn weithredol yn eu dysgu, ac mae'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n achosi aflonyddwch yn rhwystro disgyblion eraill rhag dysgu. Nid yw rhai disgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon. Mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol yn uchel ac uwchlaw cyfraddau'r awdurdod lleol a Chymru gyfan.

Ar y cyfan, mae disgyblion yn gwrtais ac yn uniaethu'n dda â'i gilydd, â'u hathrawon ac oedolion eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac yn rhoi cymorth effeithiol iawn i'r gymuned leol ar draws ystod eang o weithgareddau. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cynnig ystod eang o brofiadau dysgu difyr ar gyfer disgyblion. Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n effeithiol ar brofiadau disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, ceir ystod gynhwysfawr o opsiynau cyffredinol a galwedigaethol, a chyflwynir rhai ohonynt mewn partneriaeth ag ysgolion lleol a phartneriaid eraill.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol ar integreiddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol yn ei gwaith. Mae lleiafrif o bynciau yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymarfer a gwella eu medrau llythrennedd. Megis dechrau datblygu y mae cynlluniau i ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn nodi disgyblion sydd â medrau llythrennedd a rhifedd gwan yn dda ac yn rhoi cymorth defnyddiol iddynt. Yn ychwanegol, mae cynorthwywyr addysgu yn rhoi cymorth buddiol yn y dosbarth i'r disgyblion hyn.

Mae darpariaeth allgyrsiol yn nodwedd gref iawn yn yr ysgol. Ceir ystod eang o weithgareddau chwaraeon, cerddorol a gweithgareddau eraill y mae nifer dda iawn o ddisgyblion yn eu mynychu, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu cyflawniad a'u lles.

Caiff darpariaeth ar gyfer y Gymraeg ei threfnu'n dda ac mae'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd uwchlaw disgwyliadau. Yng nghyfnod allweddol 4, caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion eu cofrestru ar gyfer y cwrs llawn Cymraeg ail iaith TGAU, sy'n nodwedd gref. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru ei

datblygu'n effeithiol trwy ystod o bynciau a gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys eisteddfod flynyddol.

Mae'r ysgol yn gwneud cyfraniad addas at ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang trwy grwpiau disgyblion, gwaith mewn sawl pwnc a'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r addysgu'n effeithiol mewn dros hanner y gwersi. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion ac maent yn sefydlu perthnasoedd gweithio cryf sy'n creu amodau cadarnhaol ar gyfer dysgu effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio ystod o weithgareddau defnyddiol sy'n ennyn a chynnal diddordeb dysgwyr yn dda. Caiff y gwersi hyn eu cynllunio'n dda ac mae gweithgareddau'n adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol yn llwyddiannus.

Yn y nifer fach iawn o wersi rhagorol, mae gweithgareddau'n hynod heriol ac yn symud yn dda, ac maent yn ennyn diddordeb disgyblion mewn modd dychmygus. Yn y gwersi hyn, mae holi gan athrawon yn archwilio dealltwriaeth disgyblion yn hynod effeithiol ac yn datblygu medrau meddwl creadigol disgyblion yn dda. Mae gweithgareddau llythrennedd crefftus, gan gynnwys defnyddio strategaethau darllen ac ysgrifennu, yn cefnogi datblygiad medrau disgyblion yn arbennig o dda.

Mewn lleiafrif o wersi, mae'r addysgu'n cynnwys gwendidau pwysig. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn gosod disgwyliadau digon uchel i ddisgyblion, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn cynhyrchu gwaith o ansawdd gwael. Hefyd, nid yw gweithgareddau wedi'u cynllunio'n wael yn bodloni anghenion disgyblion yn ddigonol ac mae hyn yn cyfrannu at achosion o ddisgyblion yn ymddieithrio yn ystod gwersi. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw disgyblaeth athrawon yn yr ystafell ddosbarth yn ddigon effeithiol. Mae hyn, ynghyd â diffyg diddordeb disgyblion, yn arwain at ymddygiad gwael, mae'n tarfu ar y wers ac yn achosi i ddisgyblion wneud cynnydd annigonol.

Mae mwyafrif yr athrawon yn marcio gwaith yn rheolaidd ac yn rhoi adborth ysgrifenedig addas i ddisgyblion. Mae lleiafrif o farcio yn rhoi arweiniad gwerth chweil i ddisgyblion ar sut i wella. Fodd bynnag, mae ansawdd y sylwadau ysgrifenedig yn anghyson ar draws yr ysgol ac mae sylwadau mewn tua hanner o'r marcio yn rhy arwynebol neu'n rhy ganmoliaethus i fod yn ddefnyddiol. Yn bwysig, nid yw disgyblion yn gweithredu yn unol â sylwadau a chyngor athrawon yn rheolaidd i gywiro a gwella'u gwaith.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o ddata yn dda i olrhain cynnydd disgyblion a nodi disgyblion y mae angen cymorth arnynt. Gall staff fynd at broffiliau data disgyblion cynhwysfawr, sy'n nodi cryfderau a gwendidau ym medrau disgyblion. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn y modd y mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi disgyblion mewn gwersi.

Caiff rhieni adroddiadau clir ac addysgiadol ar gyflawniad a chynnydd eu plant.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar a chefnogol sy'n cael effaith gadarnhaol ar lawer o agweddau ar les a datblygiad personol disgyblion. Mae ystod o brofiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae gwasanaethau a sesiynau tiwtorial yn darparu cyfleoedd addas ar gyfer myfyrio ac yn helpu i hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion yn briodol. Mae'r ysgol yn helpu disgyblion i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw ac mae ganddi drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan yr ysgol systemau addas i fonitro a gwella presenoldeb. Fodd bynnag, ni chaiff gweithdrefnau i sicrhau safonau uchel o ymddygiad gan bob disgybl eu defnyddio'n gyson gan bob un o'r staff, ac mae hyn yn cyfrannu at gyfraddau uchel o waharddiadau cyfnod penodol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion penodol disgyblion unigol. Fe wnaeth anogwyr dysgu a'r rhaglenni mentora a sefydlwyd yn ddiweddar gefnogi lles a chynnydd academaidd disgyblion yn briodol. Mae'r ysgol yn darparu ystod o wybodaeth werthfawr i ddisgyblion a rhieni am opsiynau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, a llwybrau gyrfa.

Mae cynlluniau addysgol unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodi targedau dysgu defnyddiol. Caiff gweithwyr cymorth arbenigol o ystod o wasanaethau allanol eu cydlynu'n dda ac maent yn rhoi cymorth gwerthfawr i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae systemau priodol ar waith i sicrhau bod rhieni disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael gwybod am addysg eu plentyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ysgol ethos gofalgar, cefnogol a chynhwysol sy'n sicrhau addysg a chyfle cyfartal i bawb. Mae'n hyrwyddo parch at amrywiaeth ac yn dathlu cyflawniad yn dda, ac yn cyfleu'r gwerthoedd hyn yn effeithiol i ddisgyblion a rhieni. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth addas i gefndiroedd disgyblion i wneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un cyfle i fanteisio ar gwricwlwm yr ysgol. Mae darpariaeth allgyrsiol yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at ethos yr ysgol a'r synnwyr o gymuned yno.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd croesawgar ac mae ganddi adnoddau da. Mae safon yr adeiladau wedi gwella yn dilyn rhaglen adnewyddu dros y tair blynedd diwethaf. Caiff arddangosfeydd mewn ystafelloedd dosbarth eu cyflwyno'n dda. Maent yn cynnwys gwaith a phrofiadau disgyblion ac yn dathlu eu cyflawniadau. Mae hyn yn gwella amgylchedd yr ysgol yn dda. Mae digon o le yn yr ardaloedd chwarae y tu allan ac mae cyfleusterau newid a thoiledau mewn cyflwr priodol. Gwrandewir ar farn disgyblion gan roi ystyriaeth i ddatblygu'r safle ac maent wedi dechrau gwneud gwelliannau mewn nifer o ardaloedd o amgylch yr ysgol. Mae

amgylchedd ffisegol, adeiladau a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u rheoli'n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth bwrpasol. Mae ganddynt weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer datblygu'r ysgol sydd wedi cael ei chyfleu'n effeithiol i staff a disgyblion yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cyfrannu at ymdeimlad cryf o waith tîm a diben a rennir ar draws yr ysgol.

Trwy gydweithio, mae uwch arweinwyr wedi nodi'r blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer yr ysgol, sy'n cynnwys blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel gwella presenoldeb, lleihau effaith difreintedd a gwella llythrennedd a rhifedd. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio data yn dda i fonitro perfformiad ac fe gaiff arweinwyr canol eu dwyn i gyfrif yn gynyddol am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae hyn wedi dechrau gwella deilliannau, yn enwedig yn y dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, ni fu digon o effaith ar addysgu a dysgu gan fod safonau islaw disgwyliadau mewn lleiafrif o wersi.

Mae strwythurau rheoli a phwyllgorau'r ysgol yn gydlynus. Mae cyfarfodydd rheolaidd ar bob lefel yn helpu i redeg yr ysgol yn effeithlon ac yn rhoi'r cyfle i staff gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau ysgol gyfan a thîm. Mae'r cyfarfodydd hyn yn darparu cyfleoedd defnyddiol i staff adolygu cynnydd disgyblion a thrafod agweddau ar ddarpariaeth. Fodd bynnag, ni roddir digon o bwyslais ar sut i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu a hyrwyddo arfer orau. Mae hyn yn arwain at anghysondeb o ran rhoi polisïau ysgol gyfan ar waith fel y polisïau ar gyfer ymddygiad ac asesu. Mae hyn yn fwyaf amlwg mewn rhai adrannau pwnc lle nad yw arweinwyr canol wedi cael digon o effaith ar wella deilliannau ac ansawdd y ddarpariaeth yn eu pwnc.

Mae disgrifiadau swydd staff yn nodi rolau a chyfrifoldebau penodol yn addas, ac mae trefniadau rheoli perfformiad yn helpu i nodi blaenoriaethau datblygiad proffesiynol unigol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw rhai disgrifiadau swydd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn diffinio'r cyfrifoldebau penodol ar gyfer gwella meysydd pwysig o waith yr ysgol yn ddigon da, er enghraifft ar gyfer codi safonau a monitro ac olrhain cynnydd disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn goruchwylio holl feysydd gwaith yr ysgol yn briodol. Mae'n ymwybodol o'r prif faterion strategol sy'n wynebu'r ysgol a'i pherfformiad presennol. Mae pob un o'r llywodraethwyr yn gysylltiedig ag adrannau yn yr ysgol ac yn perthyn i ystod addas o bwyllgorau yn y corff llywodraethol. Maent yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn briodol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant wedi helpu i gyflawni gwelliannau mewn perfformiad, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, a pherfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, nid

yw'r prosesau wedi arwain at ddigon o welliannau mewn presenoldeb, ymddygiad, ac mewn addysgu a dysgu mewn tua hanner y gwersi eto.

Ceir cylch rheolaidd o ystod eang o weithgareddau hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod gynhwysfawr o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau gwersi, adolygiadau manwl, craffu ar waith, safbwyntiau disgyblion a rhieni ac arfarniadau allanol. Mae rhai o'r gweithgareddau hyn wedi'u cynllunio'n dda. Er enghraifft, mae adolygiadau adrannol yr uwch dîm arweinyddiaeth yn drylwyr a chynhwysfawr o ran eu cwmpas, ac maent yn nodi meysydd clir i'w gwella mewn perthynas ag addysgu a dysgu.

Er bod gan yr ysgol feini prawf cyffredin ar gyfer arfarnu safonau, addysgu a dysgu, ceir anghysondeb o ran pa mor drylwyr y caiff y meini prawf eu cymhwyso. O ganlyniad, nid aethpwyd i'r afael yn drylwyr â diffygion a nodwyd mewn arweinyddiaeth ganol, addysgu a'r cynnydd a wna disgyblion.

Mae fformat cyson i adroddiadau hunanarfarnu'r ysgol a rhai adrannol ac mae arfarniadau'n canolbwyntio'n briodol ar nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae adroddiadau hunanarfarnu rhai adrannau yn ddefnyddiol ac yn rhoi asesiad gonest o'u gwaith.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen glir a chryno sy'n amlinellu meysydd i'w datblygu a nodwyd o hunanarfarnu a blaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn hepgor nifer fach o faterion a nodwyd trwy hunanarfarnu fel gwella deilliannau yn nhrothwy lefel 1 a gwella darpariaeth amgen ar gyfer nifer fach o ddisgyblion nad yw'r cwricwlwm a ddarperir yng nghyfnod allweddol 4 ar hyn o bryd yn bodloni eu hanghenion.

Mae cynlluniau gwella adrannol yn amrywio gormod o ran ansawdd. Er bod camau gweithredu wedi'u seilio ar feysydd i'w gwella a nodwyd trwy hunanarfarnu yn hanner y cynlluniau gwella adrannol, dim ond mewn lleiafrif o bynciau y maent wedi cael dylanwad cadarnhaol. Yn hanner arall y cynlluniau adrannol, nid yw camau gweithredu yn cysylltu'n glir â deilliannau hunanarfarnu ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar yr hyn y mae angen ei wella.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol berthnasoedd gweithio gwerthfawr gydag ystod eang o bartneriaid. Mae'r cysylltiadau hyn yn fuddiol wrth wella'r deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed, a chefnogi datblygiad diwylliannol a chorfforol disgyblion.

Mae partneriaethau sefydledig gyda dwy ysgol uwchradd leol a darparwr dysgu yn y gwaith wedi ymestyn ystod y cyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd addas ar waith i fonitro'r ddarpariaeth a'r deilliannau.

Mae'r ysgol wedi datblygu nifer ddefnyddiol o fentrau gyda'i hysgolion cynradd partner sy'n cyfrannu'n effeithiol at bontio. Mae adran y Gymraeg a'r cydlynwyr Cymraeg wedi gwneud gwaith llwyddiannus yn yr ysgolion cynradd i ddatblygu

portffolio rhyngweithiol o fedrau Cymraeg pob disgybl.  Megis dechrau datblygu y mae cysylltiadau eraill y cwricwlwm, er enghraifft ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

Ceir cysylltiadau cryf â'r gymuned.  Mae disgyblion yn helpu i sicrhau bod digwyddiadau lleol yn cael eu cynnal yn ddidrafferth, fel cystadleuaeth flynyddol y dyn haearn.  Caiff y digwyddiadau chwaraeon a cherddorol a gynhelir yn yr ysgol eu cefnogi'n dda gan y gymuned.  Mae cysylltiadau ag asiantaethau allanol a busnesau lleol yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, a'u profiad o fyd gwaith.

Ceir cysylltiadau priodol gyda rhieni.  Cânt eu hysbysu'n addas am waith yr ysgol a lles a chynnydd eu plant.  Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn hysbysu rhieni'n gyson am ddeilliannau ac unrhyw gamau gweithredu a gynllunnir i ymateb i farn rhieni.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu digon o athrawon cymwys i ymdrin â phob agwedd ar gwricwlwm yr ysgol yn effeithiol, ac fe gaiff y ddarpariaeth ôl-16 ei gwella'n sylweddol trwy drefniadau'r consortiwm 14-19 lleol.  Caiff staff addysgu a chymorth eu defnyddio'n briodol i wneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth a'u harbenigedd.

Mae staff yn elwa ar ystod ddefnyddiol o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i gynyddu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth.  Mae'r rhain yn cynnwys profiadau dysgu ysgol gyfan rheolaidd, rolau arweinyddiaeth cyfnod penodol, cyfleoedd secondiad ac amrywiaeth o gyrsiau allanol.  Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio digon ar rannu arfer dda yn yr ysgol.

Mae rheolwr busnes yr ysgol, trwy gydweithio â'r pennaeth, yr uwch arweinwyr a'r llywodraethwyr, yn monitro cyllid yr ysgol yn agos.  Caiff yr holl wariant ei gyllidebu'n ofalus a'i ddyrannu yn unol â blaenoriaethau a nodwyd.  Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi rheoli gostyngiad yn y gyllideb yn effeithiol, a ysgogwyd yn sgil gostyngiad sylweddol yn niferoedd y disgyblion.  Er gwaethaf gostyngiadau mewn cyllid a staffio, mae'r ysgol yn parhau i gynnig cwricwlwm llawn a chytbwys i'w disgyblion.

Yng ngoleuni'r deilliannau da a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae tua phedwar o bob pum disgybl wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yn gyson dros y pedair blynedd diwethaf. Mae hyn wedi bod yn uwch na'r perfformiad cyfartalog yn y teulu o ysgolion ar y cyfan, heblaw yn 2013 pan mae'n disgyn ychydig yn is. Mae perfformiad uwchlaw disgwyliadau wedi'u modelu ond yn gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yn y ddwy flynedd flaenorol, gosododd perfformiad yr ysgol yn y 25% uchaf a'r 50% uchaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim yn y drefn honno. Mae perfformiad yn y pynciau craidd ar wahân yn dangos patrwm tebyg, er bod perfformiad mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn gryfach nag ydyw mewn mathemateg. Ar lefel 6 ac yn uwch, mae perfformiad yn gyffredinol wedi bod yn gryf mewn Saesneg a mathemateg ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth yn wannach ac yn gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 4 yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi gwella'n gyflym. Yn 2013, mae perfformiad yn y mesur hwn uwchlaw disgwyliadau wedi'u modelu, sy'n uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2013, mae uwchlaw cyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, nid yw perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi bod mor gryf. Er bod perfformiad yn y mesur hwn wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, yn 2013, mae islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion ac yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn wedi bod yn wir am y tair blynedd diwethaf. Nid yw'r cynnydd a wna disgyblion rhwng cyfnod allweddol 2 a diwedd cyfnod allweddol 4 mewn llawer o ddangosyddion mor gryf ac mae cryn dipyn islaw perfformiad amcangyfrifedig ar gyfer y dangosydd pwnc craidd a throthwy lefel 1.

Nid oes unrhyw ddisgyblion yn gadael yr ysgol heb gymhwyster. Mae'r gyfran sy'n aros ymlaen mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed uwchlaw ffigurau cenedlaethol. Mae nifer fach o ddisgyblion wedi gadael yr ysgol yn 16 oed ac yr adroddwyd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r gyfran hon islaw ffigurau lleol a chenedlaethol.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 3 wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf ac, yn 2013, mae uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi bod yn gryf dros y blynyddoedd diwethaf ac mae wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol yn gyson. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gwneud cynnydd yn unol â disgwyliadau.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad bechgyn yn well na pherfformiad merched yn y dangosydd pwnc craidd, ac mae perfformiad bechgyn yn well na chyfartaledd y teulu o ysgolion a'r cyfartaledd cenedlaethol.  Fodd bynnag, mae perfformiad merched yn y mesur hwn islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion a'r cyfartaledd cenedlaethol.  Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad bechgyn yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf yn gyffredinol.  Fodd bynnag, yn 2013, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y mesur hwn yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol.  Mae hyn yn bennaf oherwydd y perfformiad cryf gan ferched mewn Saesneg, ac i raddau llai, mewn mathemateg y flwyddyn honno.  Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni yn unol â disgwyliadau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 fel ei gilydd.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Uwchradd (Cyffredinol)

Mae'n dynodi'r meincnod – mae hyn yn gyfanswm o'r holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 272 | 115<br>42% | 147<br>54% | 7<br>3% | 3<br>1% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 43% | 53% | 3% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 268 | 60<br>22% | 167<br>62% | 39<br>15% | 2<br>1% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 26% | 58% | 14% | 2% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 271 | 72<br>27% | 166<br>61% | 30<br>11% | 3<br>1% | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 38% | 53% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 265 | 42<br>16% | 143<br>54% | 70<br>26% | 10<br>4% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 23% | 57% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 270 | 118<br>44% | 122<br>45% | 26<br>10% | 4<br>1% | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 45% | 45% | 8% | 2% | |
| I am doing well at school | 270 | 81<br>30% | 172<br>64% | 15<br>6% | 2<br>1% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 270 | 76<br>28% | 174<br>64% | 17<br>6% | 3<br>1% | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 269 | 30<br>11% | 137<br>51% | 81<br>30% | 21<br>8% | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 272 | 96<br>35% | 151<br>56% | 23<br>8% | 2<br>1% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pupils behave well and I can get my work done | 271 | 18 | 167 | 74 | 12 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 7% | 62% | 27% | 4% | |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 269 | 63 | 155 | 35 | 16 | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 23% | 58% | 13% | 6% | |
| | | 29% | 51% | 17% | 4% | |
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 270 | 58 | 134 | 68 | 10 | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | 21% | 50% | 25% | 4% | |
| | | 16% | 54% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 270 | 86 | 168 | 14 | 2 | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| | | 34% | 60% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 270 | 69 | 153 | 44 | 4 | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 26% | 57% | 16% | 1% | |
| | | 36% | 54% | 9% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 268 | 84 | 156 | 21 | 7 | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | 31% | 58% | 8% | 3% | |
| | | 37% | 54% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 272 | 77 | 166 | 26 | 3 | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 28% | 61% | 10% | 1% | |
| | | 36% | 56% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 109 | 28 | 56 | 21 | 4 | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 26% | 51% | 19% | 4% | |
| | | 28% | 52% | 15% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 78 | 17 | 43 | 13 | 5 | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 22% | 55% | 17% | 6% | |
| | | 28% | 50% | 16% | 6% | |

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – mae hyn yn gyfanswm o’r holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 408 | 118 | 234 | 37 | 9 | 10 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 29% | 57% | 9% | 2% | | |
| | | 43% | 51% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 408 | 137 | 224 | 31 | 10 | 6 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 34% | 55% | 8% | 2% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 410 | 148 | 213 | 32 | 7 | 10 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 36% | 52% | 8% | 2% | | |
| | | 49% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 405 | 146 | 220 | 25 | 4 | 10 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 36% | 54% | 6% | 1% | | |
| | | 45% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 399 | 50 | 195 | 58 | 21 | 75 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 13% | 49% | 15% | 5% | | |
| | | 22% | 55% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 396 | 74 | 233 | 39 | 8 | 42 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 19% | 59% | 10% | 2% | | |
| | | 33% | 57% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 409 | 144 | 228 | 16 | 5 | 16 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 35% | 56% | 4% | 1% | | |
| | | 50% | 45% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 409 | 71 | 231 | 58 | 18 | 31 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 17% | 56% | 14% | 4% | | |
| | | 31% | 54% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 400 | 91 | 200 | 34 | 17 | 58 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 23% | 50% | 8% | 4% | | |
| | | 32% | 48% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 407 | 105 | 235 | 30 | 6 | 31 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 26% | 58% | 7% | 1% | | |
| | | 33% | 53% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 405 | 111 | 248 | 28 | 4 | 14 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 27% | 61% | 7% | 1% | | |
| | | 41% | 52% | 3% | 1% | | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | | 385 | | 102<br>26% | 199<br>52% | 29<br>8% | 9<br>2% | 46 | | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | | | 32% | 46% | 7% | 2% | | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | | 405 | | 88<br>22% | 217<br>54% | 66<br>16% | 25<br>6% | 9 | | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | | | 34% | 50% | 11% | 2% | | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | | 410 | | 123<br>30% | 213<br>52% | 45<br>11% | 13<br>3% | 16 | | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | | | 41% | 48% | 7% | 2% | | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | | 408 | | 79<br>19% | 185<br>45% | 58<br>14% | 14<br>3% | 72 | | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | | | 27% | 51% | 10% | 2% | | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | | 399 | | 100<br>25% | 226<br>57% | 37<br>9% | 7<br>2% | 29 | | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | | | 36% | 53% | 5% | 1% | | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | | 385 | | 64<br>17% | 186<br>48% | 38<br>10% | 14<br>4% | 83 | | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | | | 26% | 46% | 8% | 2% | | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | | 408 | | 125<br>31% | 221<br>54% | 39<br>10% | 7<br>2% | 16 | | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | | | 35% | 50% | 9% | 2% | | | |
| The school is well run. | | 402 | | 119<br>30% | 215<br>53% | 26<br>6% | 16<br>4% | 26 | | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | | | 40% | 49% | 5% | 2% | | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Robert Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Sue Halliwell | Arolygydd Tîm |
| Denise Wade | Arolygydd Tîm |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Victoria Lambe | Arolygydd Cymheiriaid |
| Martin Davis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Judith Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |